

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
RHONDDA CYNON TAF  
RHONDDA CYNON TAF**

Bydd cyfarfod o'r CABINET yn cael ei gynnal ym Mhencadlys y Cyngor,  
Y Pafiliynau, Cwm Clydach (Siambwr y Cyngor)

Brynhawn Mawrth 10<sup>fed</sup> Tachwedd 2015 am 12:30

Dolen gyswllt: Mrs Emma Wilkins (Rhif ffôn 01443 424062)

Os bydd cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn dymuno cael cyfle i annerch y Cabinet am unrhyw fater ar yr agenda isod, rhaid iddyn nhw ofyn am gael gwneud hynny erbyn 5pm ar 6<sup>ed</sup> Tachwedd 2015. Nodwch mai'r Cadeirydd biau'r penderfyniad i ganiatáu'r cais. Bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail y materion sy'n cael eu trafod ar yr agenda, buddiant y cyhoedd/y cynghorydd ynglŷn â phob mater, a'r gofynion o ran y materion sydd i'w trafod ar y diwrnod hwnnw. I wneud cais, ffoniwch Swyddfa'r Cabinet ar 01443-424062 neu anfonwch e-bost i [Cabinet@rctcbc.gov.uk](mailto:Cabinet@rctcbc.gov.uk)

**MATERION I'W TRAFOD**

**1 DATGAN BUDDIANT**

Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan Gynghorwyr, yn unol â gofynion Côd Ymddygiad y Cyngor.

**Noder:**

1. Mae gofyn i Aelodau ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo Aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

**2 CYNLLUNIO GWASANAETHAU'R TYMOR CANOLIG – CYNIGION AR GYFER NEWID GWASANAETHAU**

Derbyn adroddiad gan Grŵp yr Uwch Arweinwyr sy'n amlinellu cynigion ar gyfer newid gwasanaethau yn rhan o drefniadau Cynllunio Gwasanaethau Tymor Canolig y Cyngor.

**3 CYNNIG I NEWID GWASANAETH – OPSIYNAU AR GYFER CWTOGI COSTAU YNNI GOLEUADAU'R STRYDOEDD TRWY DROSI'R UNEDAU GOLAU PRESENNOL I UNEDAU ARBED YNNI MWY EFFEITHLON, DEUODAU ALLYRRU GOLAU (LED)**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a Rheng-flaen sy'n cynnwys opsiynau ar gyfer newid gwasanaeth ynghylch cwtoGI costau refeniw goleuadau strydoedd trwy drosi'r unedau golau presennol i unedau arbed ynni mwy effeithlon, deuodau allyrru golau (LED).

**Tudalennau 93 - 100**

**4 CANOLFAN CYMUNED ORIAU DYDD PONTYPRIDD**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant sy'n tynnu sylw Aelodau at y materion cynnal a chadw sylweddol yng Nghanolfan Oriau Dydd Pontypridd ynghyd ag opsiynau tymor hir ar gyfer y Ganolfan.

**Tudalennau 101 - 106**

**5 GWELLA DARPARIAETH ADDYSG GYNRADD YN Y CYMER, PORTH RHONDDA.**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Addysg a Dysgu Gydol Oes sy'n rhoi gwybod i'r Cynghorwyr am ganlyniadau'r ymgynghoriad diweddar mewn perthynas â'r cynnig i gau Ysgol Babanod y Cymer ac Ysgol Iau'r Cymer a throsglwyddo disgyblion i ysgol gynradd newydd ar gyfer y gymuned, yn amodol ar ddewis rhieni, ym mis Medi 2016.

**Tudalennau 107 - 164**

**6 Trafod cadarnhau'r cynnig isod yn benderfyniad:**

“Bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd) yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf”.

**7 DYFODOL Y GWASANAETH CYFLENWI AR Y CYD.**

Derbyn adroddiad Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Corfforaethol a'r Gwasanaethau Rheng Flaen sy'n rhoi gwybodaeth i'r Aelodau ynglŷn â sefyllfa'r Gwasanaeth Cyflenwi ar y Cyd.

**Tudalennau 165 - 180**

**8 MATERION BRYD**

Ystyried unrhyw faterion bryd y mae'r Cadeirydd yn eu gweld yn briodol.

A handwritten signature in black ink, appearing to be in Welsh, located at the top center of the page. The signature is stylized and cursive.

**Cyfarwyddwr Gwasanaeth ac Ysgrifennydd i'r Cabinet**

**This page is left Blank.**